WILDFOX RESORTS NEWSLETTER #3

Welcome to our final newsletter of the year. And what a year it has been!

Firstly, a hello to all our new subscribers. We're delighted to have you onboard. We hope you find these updates helpful. We aim to make these as relevant as possible, so if you have thoughts on how we could help improve your experience, then do drop us a message

CYLCHLYTHYR CYRCHFAN WILDFOX #3

Croeso i'n cylchlythyr olaf am y flwyddyn. Ac am flwyddyn fuodd hi!

I ddechrau, hoffem ddweud helo wrth ein holl danysgrifwyr newydd. Mae'n bleser eich cael gyda ni. Gobeithio y bydd y diweddariadau hyn o gymorth i chi. Ein nod yw eu gwneud mor berthnasol â phosib, felly os oes gennych unrhyw syniadau sut y gallem wella eich profiad gyda nhw, cofiwch anfon neges atom.

.

Project highlights from 2022

This year we have made monumental progress in bringing the Resort vision to life. We have:

Uchafbwyntiau'r prosiect o 2022

Eleni, rydym wedi gwneud cynnydd enfawr yn y gwaith o ddod â gweledigaeth y Gyrchfan yn fyw. Rydyn ni wedi:

Planning update - What happens now that Reserved Matters is approved?

On 8 November 2022, Neath Port Talbot County Borough Council (CBC) granted consent for the Reserved Matters. This marked a key milestone in project development and demonstrated commitment to delivery.

As a helpful reminder, the Reserved Matters application includes aspects of the development that do not need submitting with the outline planning permission (granted on 18 January 2022), such as resort landscaping and appearance.

Following the approval, The Leader of Neath Port Talbot CBC, Cllr Stephen Hunt said:
"*This is a transformational project for the Afan Valley and this region as a whole as it will provide a large number of jobs in the construction phase and when it is finished local people will have many jobs available to them. It promises to make the Afan Valley the go-to place for adventure tourists and will also have a spa and wellness offering with many spin-off benefits for Neath Port Talbot*."

Alongside the Reserved Matters application, the discharge of conditions application was also approved on 8 November 2022.

Planning conditions are put in place to control the way in which the planning permission must be implemented. They aim to improve the quality of an application and prevent any adverse effects. Gaining approval means a developer has met the specified requirements set out by the relevant planning authority. The full list of conditions that were approved in November can be found in our Local Community Update.

The Wildfox team have a number of priorities over the winter including working up our approach to heritage matters and developing our Welsh language strategy. In parallel, we will be reviewing the programme and our procurement strategy. In doing so we will be engaging with contractors to understand what is possible and after that, we may need to review and refine detailed matters.

It is possible there will be additional planning submissions during 2023. This will be to ensure we can align the Resort with customer expectations, finance and delivery.

Diweddariad cynllunio – Beth sy'n digwydd nawr ar ôl cymeradwyo'r Materion a Gadwyd yn Ôl?

Ar 8 Tachwedd 2022, rhoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol (CBS) Castell-nedd Port Talbot ganiatâd ar gyfer y Materion a Gadwyd yn Ôl. Dyma garreg filltir allweddol yn y gwaith o ddatblygu'r prosiect, ac mae wedi dangos ymrwymiad i gyflawni'r gwaith.

I'ch atgoffa, mae'r cais Materion a Gadwyd yn Ôl yn cynnwys agweddau o'r datblygiad nad oed angen eu cyflwyno gyda'r caniatâd cynllunio amlinellol (a roddwyd ar 18 Ionawr 2022), pethau fel tirlunio'r gyrchfan a'i hymddangosiad.

Wedi i'r caniatâd gael ei roi, dywedodd Arweinydd CBS Castell-nedd Port Talbot, y Cynghorydd Stephen Hunt:

"Dyma brosiect trawsnewidiol ar gyfer Cwm Afan a'r rhanbarth hon ar ei hyd, am y bydd yn darparu nifer fawr iawn o swyddi yn ystod y cam adeiladu, a phan fydd wedi gorffen, bydd llawer iawn o swyddi ar gael i bobl leol. Mae'n addo gwneud Cwm Afan yn lle y mae'n rhaid mynd iddo ar gyfer twristiaid antur, a bydd yn cynnwys cynnig sba a llesiant hefyd, gyda sawl mantais i Gastell-nedd Port Talbot o ganlyniad."

Law yn llaw â'r cais Materion a Gadwyd yn Ôl, cymeradwywyd y cais rhyddhad amodol hefyd ar 8 Tachwedd 2022.

Gosodir amodau cynllunio ar waith i reoli sut y mae'n rhaid gweithredu'r caniatâd cynllunio. Eu nod yw gwella ansawdd cais ac atal unrhyw effeithiau andwyol. Mae ennill cymeradwyaeth yn golygu fod datblygwr wedi ateb y gofynion penodol a amlinellwyd gan yr awdurdod cynllunio perthnasol. Gellir gweld y rhestr lawn o amodau a gymeradwywyd ym mis Tachwedd yn ein Diweddariad Cymunedol Lleol.

Mae gan dîm Wildfox nifer o flaenoriaethau dros y gaeaf, gan gynnwys gweithio ar ein cynllun i ymdrin â materion treftadaeth, a datblygu ein strategaeth iaith Gymraeg. Law yn llaw â hyn, byddwn ni'n adolygu ein rhaglen a'n strategaeth gaffael. Drwy wneud hyn, byddwn ni'n ymgysylltu â chontractwyr i ddeall beth sy'n bosib ac wedi hynny, efallai y bydd angen i ni adolygu a mireinio materion manwl.

Mae'n bosib y gwelir ceisiadau cynllunio ychwanegol yn ystod 2023. Bydd hyn er mwyn sicrhau y gallwn unioni'r Gyrchfan â disgwyliadau cwsmeriaid, cyllid a darpariaeth.

Community engagement

It has been lovely to meet the Cymer school community, and the Council economic development team and we look forward to engaging with the tourism destination management plan in the new year.

In addition, we will continue to build our relationship with the local college group. This will help us understand the educational provision required to establish an exciting range of permanent jobs, from catering through to activity guides.

Our contractors, Keystone, are already advertising opportunities to help us with environmental and ecological work. Do get in touch.

For the younger generation, 2023 will see the roll out of our partnership with the Bumbles of Honeywood. Wildfox has funded the resources for four local primary schools and an additional Welsh medium school, to learn about resilience and entrepreneurial spirit. The team will also be visiting the schools throughout the year to deliver talks on the Resort and inspire the next generation of employees and adventure-enthusiasts!

We are also planning a programme of in-person and digital engagement events, which we hope to kick off in Spring 2023. We are keen to meet as many people as possible and respond to any questions you might have.

Ymgysylltu â'r gymuned

Bu'n hyfryd cwrdd â chymuned ysgol Cymer, a thîm datblygu economaidd y Cyngor, ac edrychwn ymlaen at ymgysylltu â'r cynllun rheoli cyrchfan dwristiaeth yn y flwyddyn newydd.

Yn ogystal, byddwn ni'n parhau i adeiladu ein perthynas â'r grŵp coleg lleol. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall pa ddarpariaeth addysgol fydd angen ei chael er mwyn sefydlu ystod gyffrous o swyddi parhaol, o arlwyo drwodd i dywyswyr gweithgareddau.

Mae ein contractwyr, Keystone, eisoes wrthi'n hysbysebu cyfleoedd i'n helpu gyda gwaith amgylcheddol ac ecolegol. Mae croeso i chi gysylltu.

Ar gyfer y genhedlaeth iau, bydd 2023 yn ein gweld ni'n cyflwyno ein partneriaeth gyda'r Bumbles of Honeywood. Mae Wildfox wedi cyllido'r adnoddau ar gyfer y pedair ysgol gynradd leol ac ysgol cyfrwng Cymraeg ychwanegol, er mwyn dysgu am wytnwch ac ysbryd entrepreneuraidd. Bydd y tîm hefyd yn ymweld â'r ysgolion drwy gydol y flwyddyn i roi sgyrsiau am y Gyrchfan ac i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o weithwyr ac anturwyr brwd!

Rydyn ni hefyd yn cynllunio i gael rhaglen o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb a digidol i ymgysylltu, y gobeithiwn eu cychwyn yn ystod y gwanwyn 2023. Rydyn ni'n awyddus i gwrdd â chynifer o bobl â phosib, ac i ymateb i unrhyw gwestiynau a allai fod gennych i'w holi.

Become a supplier

Thank you to everyone who has registered interest as a supplier over the course of the year. We were blown away with the number of enquiries we have received since gaining approval in November.

The team is now reviewing the detailed procurement and construction programme, and we will communicate opportunities regarding this from Spring 2023. If you have any questions in the meantime, please send us a message through our enquiry form on our website and let's chat.

Dewch yn gyflenwr

Diolch i bawb sydd wedi cofrestru'u diddordeb fel cyflenwr dros y flwyddyn a aeth heibio. Cawsom ein syfrdanu gan nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd gennym ers i ni gael cymeradwyaeth ym mis Tachwedd.

Mae'r tîm wrthi nawr yn adolygu'r rhaglen gaffael ac adeiladu fanwl, a byddwn ni'n cyfathrebu am gyfleoedd ynglŷn â hyn o gyfnod y gwanwyn 2023 ymlaen. Os oes gennych unrhyw gwestiynau yn y cyfamser, anfonwch neges atom drwy ein ffurflen ymholiadau ar ein gwefan, a byddai'n braf cael sgwrs.

See you next year

That's all from us, for now. For any further updates, keep an eye on the news and events section of the website.

We hope you have a great festive period and enjoy spending quality time with loved ones. We look forward to the next step in our journey together and sharing our progress along the way.

Merry Christmas and a very happy New Year!

Welwn ni chi flwyddyn nesaf

Dyna'r cyfan oddi wrthym ni, am y tro. I gael unrhyw ddiweddariadau pellach, cadwch lygad ar adran newyddion a digwyddiadau ein gwefan.

Gobeithio y cewch chi dymor yr Ŵyl wrth eich bodd, ac y bydd cyfle i chi dreulio amser braf gyda'ch anwyliaid. Edrychwn ymlaen at gam nesaf ein taith gyda'n gilydd, ac i rannu ein cynnydd ar hyd y ffordd.

Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda iawn i chi!